



Yn y rhifyn hwn:

Manteision gwenyn 2

Cynnydd yn yr asbaragws a 2

Malltod nodwyddau 2

Recordio 2

Cynhyrchu gwin yn dyblu yn y DU 2

Projectau newydd 3

Cynllun sicrhau biomas solet 3

Impio ac egino 3

Perllys, saets, rhosmari a them

Caiff rhan fwyaf y perllysiau rydym yn eu bwyta yng Nghymru eu tyfu dramor. Ond mae'n bosibl tyfu llawer iawn o'r perllysiau hynny yma. Mae CALU eisiau asesu hyfywedd cynhyrchu perllysiau - yn ymarferol ac yn economaidd.

Er mwyn gwneud hyn rydym yn cynnal treialon eleni i arddangos amrywiaeth o berllysiau.

Ar gyfer y planhigion lluosflwydd, rydym yn defnyddio planhigion micro-modiwl dau wahanol fath o fintys, dau fath o saets, rhosmari a them. Fe'u plannwyd mewn potiau 9cm a'u rhoi mewn tŷ gwydr heb wres dros y gaeaf. Cawsant eu plannu yn y cae ym mis Ebrill.

Rydym yn hau'r rhywogaethau llai hirhoedlog yn uniongyrchol ar y cae. Elsoms sydd wedi darparu'r hadau a chawsant eu drilio ar ddechrau mis Mehefin gyda dril brwsh. Mae'r rhywogaethau a heuwyd yn cynnwys coriander, perllys, cennin syfi, llysiau'r gwewyr a basil.

Yn ogystal â'r perllysiau maes, rydym yn ymchwilio i economeg cynhyrchu perllysiau mewn potiau ac mae gennym amrywiaeth o rywogaethau mewn potiau rhwng 9cm a 2 litr o faint.

Bydd y plotiau arddangos ar agor i'r cyhoedd ar 18 Awst a bydd ein hymngynhorydd, Chris Creed, ar gael i egluro'r dulliau rydym wedi eu defnyddio, y problemau rydym wedi dod ar eu traws a sut rydym wedi ceisio eu datrys.

I gyd-fynd â'r perllysiau, byddwn hefyd yn arddangos cynhyrchu micro-salad, yn cynnwys gwybodaeth ar ddulliau cynhyrchu a chyflenwyr, etc.

Mae micro-saladau (a elwir hefyd yn letys byw, salad sillf ffenestr, etc.) yn weddol newydd ar y farchnad ond maent yn boblogaidd iawn. Un o'r pethau mwyaf atyniadol amdanynt yw eu bod yn creu llai o wastraff na dail salad wedi eu torri. Mae ymchwil diweddar wedi dangos mai salad yw un o'r prif bethau a wastraffir mewn ceginau

Pwnciau CALU:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau Amgen

Enillwyr Gogledd Cymru yn y *Chelsea Flower Show*

Beth ydych yn ei weld wrth feddwl am Ogledd Cymru - mynyddoedd, defaid, fforestydd, cestyll? Mae'n debyg nad garddwriaeth ardderchog oedd y peth cyntaf a ddaeth i'ch meddwl. Ond enillodd arddwyr o Ogledd Cymru ddwy wobwr bwysig ym mhafiliwn *Chelsea Flower Show* y *Royal Horticultural Society* eleni.

Enillodd Dibleys Nurseries o Ruthun wobwr *RHS Plant*

of the Year gyda'u planhigyn 'Harlequin Blue' *Streptocarpus* ac enillodd Medwyn Williams o Sir Fôn y *President's Award* am ei arddangosfa lysiau ragorol.

Mae Dibleys wedi ennill aur ym mhob un *Chelsea Flower Show* ers iddynt ddechrau arddangos eu cynnyrch – 15 tro hyd yma. Mae gan Medwyn 11 aur o'r *Chelsea Flower Show* erbyn hyn.

A OEDDECH YN GWYBOD...?

O'r croen yn unig y daw lliw gwin coch. Mae sudd y mwyafrif o rawnwin yn glir ac mae'n rhaid eplesu gwin coch gyda chroen y grawnwin er mwyn cael y lliw coch ohonynt.

A OEDDECH YN GWYBOD...?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anelu at greu 100,00ha o goetir newydd yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

Manteision gwenyn

Ddydd Iau, 10 Mehefin, byddwn yn cynnal ein gweithdy gwenyn undydd cyntaf. Nod y gweithdy yw trafod popeth sy'n ymwneud â gwenyn.

Byddwn yn edrych ar fanteision gwenyn i fydd amaeth a garddwriaeth; rheoli gwenyn i gael mêl a chynnyrch eraill; a'r ffordd y gall rheolwyr tir newid ychydig bach ar eu harferion er budd pob math o wenyng a phryfaid eraill.

Cynhelir y gweithdy yng Nghanolfan Ymchwil

Malltod nodwyddau band coch

Afiechyd ffwngaidd yw malltod nodwyddau band coch sy'n achosi pryder mawr yng nghoedwigoedd conwydd Prydain. Mae'r afiechyd wedi bod yn y DU ers degawdau, ond bu cynnydd esbonyddol yn nifer yr achosion dros y blynyddoedd diweddar. Mae'r broblem wedi mynd mor ddrwg fel bod y Comisiwn Coedwigaeth wedi rhoi moratoriwm dros dro ar blannu coed pinwydd Corsica - un o'r rhywogaethau sydd fwyaf tebygol o gael yr afiechyd.

Achos

Caiff yr afiechyd ei achosi gan y pathogen *Dothistroma septosporum*.

Sut caiff yr afiechyd ei ledaenu?

Caiff y sborau eu lleadaenu gan symudiadau'r awyr a hefyd, mae'n debyg, gan y glaw a chan anifeiliaid. Mae'n debyg bod deunydd heintiedig yn symud wedi bod yn allweddol yn lleadaeniad cyflym ac eang yr afiechyd.

Triniaeth

Mae hylendid da mewn planhigfeydd/clystyrau coed yn bwysig - ac yn enwedig sicrhau bod digon o aer yn llifo. Argymhellir teneuo mewn coedwigoedd. Mae ymchwil ar y gweill i geisio darganfod triniaethau posibl a rhywogaethau o goed sy'n gallu ymwrthod yr afiechyd.

Pa rywogaethau a gaiff eu heffeithio?

Coed pinwydd (*Pinus* spp) a effeithir yn bennaf gan yr afiechyd, ond mae hefyd wedi heintio amryw o goed pyrwydd (*Picea* spp) a rhai coed llarwydd (*Larix* spp) ond hyd yma mae'r achosion o heintio ymysg y coed hyn wedi bod yn llai difrifol.

Cynnydd yn yr asbaragws a gynhyrchir

Mae ffigurau newydd yn dangos bod ffermwyr asbaragws ym Mhrydain bron iawn wedi dyblu eu tir tyfu ers 2004 i ateb y galw cynyddol am asbaragws.

Cynyddodd y tir a ddefnyddir i dyfu asbaragws yn y DU 84% i 1,480ha erbyn 2009, yn ôl y *British Asparagus Growers' Association*.

Yn yr un cyfnod, cynyddodd gyfanswm yr asbaragws a gaiff ei fwyta o 3,620 tonnelli i 7,410 tonnelli.

Recordio symudiadau moch yn electronig

Recordio symudiadau moch yn electronig

Ym mis Ebrill, daeth Andrew Knowles o BPEX i dri o'n cyfarfodydd cynhyrchwyr moch yng Nghymru. Mae Andrew yn gweithio ar broiect fydd yn cyflwyno recordio electronig **gorfodol** o symudiadau moch y flwyddyn nesaf (2011). **Nid** yw hyn yr un peth â thagiâu adnabod electronig i ddefaid.

Yn gyffredinol, er bod rhywfaint o bryder am y system newydd, roedd pawb yn y cyfarfodydd yn ymddangos yn ddigon bodlon i roi tro ar y technolegau newydd i recordio symudiadau.

Mae BPEX yn awyddus i drafod â chynhyrchwyr (a lladd-dai, sioeau, etc.) ynglŷn â datblygu a gweithredu'r systemau newydd. Os oes gennych unrhyw bryderon penodol am y prosesau newydd, gallwch gysylltu ag Andrew ar 0247 6478810.

Cynhyrchu gwin yn dyblu yn y DU

Cynhyrchwyd dros dair miliwn o boteli gwin yn y DU yn 2009 - tua 2.5 miliwn ohonynt yn winoedd gwyn a 700,000 yn winoedd coch.

Mae'r ardal lle cynhyrchir gwin yn y DU erbyn hyn yn 946ha o faint gyda thua 250ha o winwydd ifanc sydd heb ddechrau cynhyrchu eto.

Rydym yn amcangyfrif bod oddeutu 20ha o winlannoedd yng Nghymru.

Projectau newydd

Trwy gyllid gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, mae llu o brojectau newydd ar y gweill ar hyd a lled Cymru. Mae'r projectau hyn yn fuddsoddiad sylweddol yn yr economi gwledig a dylai'r budd a ddaw yn eu sgil ddod i'r amlwg yn fuan.

Dyma rai projectau a allai fod o ddiddordeb arbennig:

Mae'r **Welsh Perry and Cider Society** wedi derbyn cyllid i gefnogi datblygiad y sector hwnnw ar hyd a lled Cymru.

Mae **Prifysgol Glyndŵr**, mewn partneriaeth ag ADAS, Canolfan Organig Cymru a CALU, wedi derbyn cyllid i wella'r cadwynau cyflenwi yn y sector garddwriaeth yng Nghymru.

Mae'r **Pedigree Welsh Pig Society** wedi derbyn cyllid i wella dealltwriaeth o'r brîd Cymreig (yng Nghymru a thu hwnt).

Caiff **Ymddiriedolaeth Ymchwil Sárvári** ei hariannu i ddatblygu'r diwydiant tatws hadyd yng Nghymru.

Project gan Ganolfan Organig Cymru yw **Gwell Cysylltiadau Busnes Organig (BOBL)** i weithio gyda chynhyrchwyr organig ym mhob sector ar hyd a lled Cymru.

Cynllun sicrhau biomas solet newydd

Mae HETAS wedi lansio cynllun sicrhau biomas solet newydd (SBAS) fydd yn galluogi cynhyrchwyr biomas i farchnata eu cynnyrch gyda logo sicrhau ansawdd HETAS SBAS.

Mae'r cynllun yn cynnwys pedwar categori ar gyfer cynnyrch tanwydd coed: boncyffion, sglodion pren, pelenni pren a briquettes. At ei gilydd, maent wedi eu strwythuro i gymryd i ystyriaeth y Safonau Ewropeaidd ar gyfer y mathau hyn o danwydd.

Ystyrir cynyddu hyder cwsmeriaid mewn cynnyrch tanwydd coed a'r modd y cânt eu cyflenwi fel ffordd allweddol o wella enw da a phroffidioldeb y sector. Nod y cynllun newydd hwn yw cefnogi hynny.

Gall cyflenwyr biomas sydd â diddordeb ymuno â'r cynllun gael mwy o wybodaeth ar wefan HETAS - www.hetas.co.uk.

A OEDDECH YN GWYBOD...?

Gostyngodd nifer y moch a gynhyrchwyd yng Nghymru yn sylweddol rhwng 2000 a 2008 o oddeutu 70,000 i oddeutu 20,000. Mae ffigurau diweddar yn awgrymu bod y tueddiad hwn wedi dechrau gwrthdroi erbyn hyn.

Impio ac egino

Cynhaliwyd gweithdai blynyddol impio coed ffrwyth CALU eleni yn Henfaes, Gogledd Cymru ac yn Libanus, Aberhonddu. Bu'r gweithdai'n llwyddiant ysgubol eto eleni.

Roedd y gweithdai dan arweiniad Paul Davies o Dolau-Hirion Fruit Tree Nursery a chafodd pawb oedd yno gyfle i impio coed ffrwyth. Aeth pawb adref gydag o leiaf un goeden ffrwyth oeddent wedi ei himpio o ddetholiad Paul o stociau gwraidd ac amrywiaethau o goed afalau.

Daeth rhai â brigau impiedig o'u perllannau eu hunain i luosogi hen amrywiaethau a fyddai o bosibl yn diflannu fel arall.

Pwrpas impio yw cyfuno rhinweddau un planhigyn o ran blodeuo neu ffrwytho gyda gwreiddyn un arall i reoli ymnerth.

Mae impio stoc gwraidd ar frigau impiedig yn sgil werthfawr i bobl sydd eisiau cynhyrchu eu coed ffrwythau eu hunain, mae'n sgil anodd sy'n gofyn am lawer o amynedd.

Yn dilyn y gweithdai impio, mae CALU yn bwriadu cynnal dau weithdy egino ym mis Awst 2010.

Mae egino yn debyg i impio gan ei fod yn galluogi cyfuniad cywir o ffrwytho ac ymnerth. Dywed rhai bod y dechneg hon yn haws, a chaiff ei defnyddio'n

llawer mwy eang mewn meithrinfeydd masnachol. Caiff impio ei wneud ar ddiwedd y gaeaf cyn i'r coed ddechrau blaguro. Ond mae'n rhaid egino yn yr haf pan fo'r blagur dal yn weithredol.

Y prif wahaniaeth rhwng y ddwy dechneg yw bod egino'n defnyddio un blaguryn yn unig o bob brigyn impiedig. Mae hyn yn golygu y gellir lluosogi mwy o blanhigion gan ddefnyddio un planhigyn yn unig.

Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth am weithdai egino CALU.

CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes
Prifysgol Bangor
Abergwyngregyn
LLANFAIRFECHAN
LL33 0LB
Ffôn: 01248 680 450
Ffacs: 01248 681730
E-bost: calu@bangor.ac.uk

www.calu.bangor.ac.uk

Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



Digwyddiadau i Ddod

Cysylltwch â ni i gael gwybodaeth bellach am unrhyw rai o ddigwyddiadau CALU.
Mae mw o ddigwyddiadau ar ein gwefan —www.calu.bangor.ac.uk

Cofiwch sicrhau bob amser bod digwyddiad yn cael ei gynnal cyn i chi deithio.

Mehefin 7- Grwp ar Sir Benfro

Mehefin 8— Grwp gwinlloedd gogledd Cymru, Canolfan Ymchwil Henfaes

Mehefin 10—Gewithdy dechrau cadw gwenyn, Canolfan Ymchwil Henfaes

Mehefin 14—Grwp dodfenod gogledd Cymru— Gwesty, The Eagles, Llanrwst

Gorffennaf 19-22— Sioe Brenhinol

Gorffennaf 28—Sioe Sir Aberteifi

Awst 3— Gweithdy egino coed ffrwyth, Fferm Primrose, Felindre,

Awst 10 –11—Sioe Sir Fon

Awst 12— Tatws: gwrthsefyll malltod, amrywiaethau & ffyngladdwyr, Cwm March, Cilcennin

Awst 18— Tyfu Perllysiau yn y cae, Canolfan Ymchwil Henfaes

Awst 25— Sioe Meirionydd, Harlech

Awst 26—Sioe Sir Trefynwy

Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhwydwaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Tafenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Tafenni gwybodaeth am gnydau
- Adroddiadau project
- Sgyrsiau
- Grwpiau cynhyrchwyr
- Sioeau amaethyddol
- llyfyrnau gwybodaeth

PARTNERIAID CALU :

- Prifysgol Bangor
- Coleg Garddwriaeth Cymru
- ADAS Cymru
- Coed Cymru
- Coleg Llysfasi

